| GWEINIDOGION Y DU SY’N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **54 – Rheoliadau’r Amgylchedd (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2019**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 5 Rhagfyr 2018* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen sifftio yn Senedd y DU? | Nac oedd |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ’r Cyffredin | Dd/B |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Tŷ’r Arglwyddi | Dd/B |
| Dyddiad y daw’r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Dd/B |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 24 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Papur 25 |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Dd/B |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Ddim yn hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ’r Cyffredin | Ddim yn hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Tŷ’r Arglwyddi | Ddim yn hysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i’r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i’r Ddeddf.

Mae’r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod deddfau amgylcheddol, trawsbynciol yn y Deyrnas Unedig yn gweithredu’n gyfreithiol ar ôl ymadawiad y DU â’r Undeb Ewropeaidd. Mae’n gwneud hyn mewn tair ffordd:

(1) drwy ddiwygio Deddfau amgylcheddol, trawsbynciol;
(2) drwy ddiwygio offerynnau statudol amgylcheddol, trawsbynciol; a
(3) thrwy atal rhai Rheoliadau a Phenderfyniadau amgylcheddol yr UE, sydd wedi dyddio
neu na fydd ganddynt ddim swyddogaeth bellach ar ôl i ni adael yr UE, gan gael eu dwyn i mewn i gyfraith y DU drwy weithrediad awtomatig Deddf yr UE (Ymadael) 2018 ("EUWA 2018"); ynghyd â gorchmynion dynodi

domestig o ran Cymru a Lloegr sy'n ddiangen yng ngoleuni'r diwygiadau i Ddeddfau mewn mannau eraill yn yr offeryn.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 10 Rhagfyr 2018 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:
Mae datganiad Llywodraeth Cymru yn cyfeirio'n anghywir at y Rheoliadau hyn fel Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018, pan maen nhw mewn gwirionedd yn Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) *2019*.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.